

Bwletin 22/4/20

Annwyl Riant / Ofalwr,

Ar ddechrau tymor yr haf, carwn ddiolch i chi am bob cefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf. Gobeithio eich bod i gyd wedi cael cyfle i ymlacio dros y gwyliau Pasg gwahanol. Daeth y newyddion y bydd yr ysgol yn parhau fel Hwb am yr wythnosau nesaf wrth i ni ddygymod ag effaith Covid-19 yng Nghymru. Diolch i'r staff sydd wedi bod yn gweithio ar rota yn yr Hwb.



Dysgu o Hirbell

Rydym wedi ail-ddechrau Dysgu o Hirbell i flynyddoedd 7 – 13 ers dydd Llun. Bydd cadw at weithio yn ystod oriau ysgol arferol (gyda digon o gyfnodau o egwyl wrth gwrs) yn gymorth mawr i ddysgwyr o ran lles ac iechyd meddwl. Bydd ein cyswllt cyson â disgyblion yn fodd i gynnal eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn ogystal. Bydd angen i'ch plentyn fewngofnodi i Classroom bob dydd (os yn bosib) i gael mynediad i waith a osodwyd.

Yn dilyn adborth gan ddysgwyr mewn holiadur, dim ond **1 dasg yr wythnos** neu **1 dasg fwy sylweddol dros gyfnod o wythnosau** y bydd pob adran yn ei gosod o hyn ymlaen. Awgrymwn fod disgyblion yn cwblhau **rhwng 2-3 awr o waith ysgol y dydd**, ynghyd â gweithgareddau sy'n cyfoethogi bywyd teuluol fel ymarfer corff, darllen, chwarae gemau, celf a chreffft, coginio ayyb. Sylweddolwn fod pob unigolyn yn gweithio ar wahanol gyflymder, yn gweld elfennau gwahanol o dasgau yn hawdd neu'n anodd, ond nid oes disgwyl eu bod yn treulio amser gyda'r nos yn gwneud gwaith cartref yn ychwanegol at waith y diwrnod hwnnw. Sylweddolwn nad yw'n bosib i bawb gwblhau pob tasg. Ein hunig ddisgwyliadau o'n dysgwyr yw eu bod yn gwneud eu gorau a chyflawni'r hyn sy'n ymarferol bosib o dan yr amgylchiadau.

Os ydych chi'n chwilio am dasgau ychwanegol i'r dysgwyr eu cwblhau yna mae Bitesize wedi lawnsio gweithgareddau dyddiol mewn amrywiol bynciau ar gyfer disgyblion CA3 yr wythnos hon <https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zdwkkmn> ac mae gwefan Bitesize ar gyfer CA4 eisoes yn bodoli <https://www.bbc.co.uk/bitesize/levels/z8w76sg>

Prin yw'r dysgwyr sydd wedi bod yn segur yn ystod yr wythnosau cyntaf, ac mae'n siŵr bod rhesymau teilwng gan y rhai hynny sydd heb ddechrau ar eu gwaith eto – ond mae rhai unigolion sydd heb ymaelodi â'u dosbarthiadau ar Classroom o hyd. A wnewch chi sicrhau bod eich plant wedi ymaelodi â'u dosbarthiadau i gyd (codau ar dudalen Classroom y flwyddyn ysgol) ac ebostio cymorthtg@glantaf.cymru os oes unrhyw broblem dechnegol.

Os nad oes cyswllt wedi bod rhwng dysgwr a'i athro bydd y dysgwr wedi derbyn ebost yn gofyn a yw popeth yn iawn neu a oes angen mwy o gymorth i gwblhau tasg. Bwriadwn gysylltu â rhieni y dysgwyr hynny sydd heb fod yn cyfathrebu neu'n cyflwyno gwaith i'w hathrawon dros y dyddiau ac wythnosau nesaf. Hyderwn eich bod fel rhieni yn ein cefnogi i annog pob plentyn i gadw'n brysur ac i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, ethos gwaith annibynnol a'u dealltwriaeth mewn cyfnod sy'n anghyfarwydd i ni i gyd.

Blwyddyn 11 ac 13

Mae athrawon yn parhau i osod gwaith er mwyn sicrhau bod yr holl addysgu a dysgu wedi'i gwblhau, a helpu i'ch plentyn baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ni fydd unrhyw waith newydd a gaiff ei osod

yn dylanwadu ar ganlyniadau'r haf eleni. Bydd yr athrawon yn hysbysu'r dysgwyr pan fydd addysgu cyrsiau TGAU a Lefel A wedi dod i ben.

Blwyddyn 10 ac 12

Mae'n bwysig bod Blwyddyn 10 ac 12 yn parhau i ymrwymo i'w hastudiaethau dros yr wythnosau nesaf. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i Flwyddyn 10 ysgwyddo baich ychwanegol eu holl arholiadau TGAU yn ystod 2020-21 – mae hyn i'w drafod a'i benderfynu gan yr ysgol dros yr wythnosau nesaf. Bydd yr athrawon yn sicrhau bod gwaith Blwyddyn 10 wedi'i gwblhau cyn symud ymlaen at waith Blwyddyn 11. Gyda Blwyddyn 12, er y bydd graddau UG yn cael eu dyfarnu i'r myfyrwyr, rhaid gorffen gosod y sylfeini cadarn sydd eu hangen arnynt i lwyddo ym mlwyddyn 13 ac felly mae angen cwblhau'r meysydd llafur UG.

Dyfarnu Graddau

Bydd athrawon yr ysgol wrthi dros yr wythnosau nesaf yn dyfarnu graddau i ddysgwyr blynyddoedd 11 -13 yn TGAU, Uwch Gyfrannol, a Safon Uwch. Bydd y graddau hyn yn cael eu cyflwyno i'r byrddau arholi i'w prosesu. Mae gofyn i'r ysgol gyflwyno dau ddarn o wybodaeth am bob un o gymwysterau'r dysgwyr i'r byrddau arholi, yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n ei wybod am waith a pherfformiad y dysgwr:

- y radd mae'r ysgol yn credu y byddai'r dysgwr fwyaf tebygol o'i hennill petai addysgu, dysgu ac arholiadau wedi digwydd yn ôl y cynllun
- trefn y dysgwyr, yn ôl perfformiad, o fewn y graddau hynny

Bydd yr ysgol yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth fel gwaith dosbarth a gwaith cartref; canlyniadau mewn aseiniadau ac unrhyw ffug arholiadau; unrhyw asesiadau di-arholiad a gwblhawyd; a chynnydd cyffredinol y dysgwr yn ystod y cwrs.

Mae'r data (graddau a threfn restrol) a gaiff ei ddarparu yn gyfrinachol, ac ni ellir ei rannu gyda chi fel rhieni neu ofalwyr, na gyda'r dysgwyr eu hunain. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â gofyn i'r athrawon, nac unrhyw un arall yn yr ysgol, i ddatgelu pa raddau y byddan nhw'n eu hanfon at CBAC nac ym mha drefn maen nhw wedi gosod eich plentyn gan na fyddwn yn datgelu'r wybodaeth. Pwrpas hyn yw helpu sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan ysgolion a cholegau mor deg â phosibl. Gallai'r radd derfynol fod yn wahanol i'r un mae'r ysgol yn ei hanfon at CBAC.

Am wybodaeth bellach, ewch i wefan Cymwysterau Cymru

<https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/>

Diwrnod Canlyniadau

Cafwyd cadarnhad mai'r diwrnod canlyniadau i flynyddoedd 12 a 13 yw 13 Awst (UG a Safon Uwch) ac 20 Awst i flwyddyn 11 (TGAU).

Ail-sefyll

Mae arholiadau TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith eisoes ar gael i'w hail-sefyll bob mis Tachwedd. Os bydd angen, bydd modd sefyll yr arholiadau hyn eto bryd hynny. Bydd arholiadau eraill ar gael, fel arfer, yn ystod haf 2021.

Cymorth Lles ac Emosiynol

Mae'r cyfnod hwn yn her i nifer o'n plant a'n pobl ifanc, fel ag ydyw i ni fel oedolion. Mae'n gyfnod anghyffredin o fethu dilyn patrwm bywyd bob dydd cyfarwydd, methu mynd allan i chwarae, methu

gweld ffrindiau, methu cymryd rhan mewn hoff weithgaredd hamdden. Hoffwn eich sicrhau chi a'r dysgwyr ein bod yma fel ysgol yn gefn i chi bob amser.

Mae gan bob dysgwr fynediad i ofal bugeiliol eu Pennaeth Cynnydd a Lles drwy ebost a Google Classrooms. Mi fydd tiwtoriaid dosbarth hefyd yn creu cyfrifon Google Classrooms yn ystod yr wythnos hon. Gellir hefyd gysylltu gyda'r ysgol drwy ebostio **bn@glantaf.cardiff.sch.uk**

Mae cyfrif Twitter **@LlesYsgolGlant1** hefyd yn cynnig gwybodaeth am faterion lles ac iechyd meddwl gyda dolenni i wefannau gan fudiadau, elusennau ac asiantaethau allanol. Rhai o'r rhai mwyaf defnyddiol ar hyn o bryd yw:

- www.youngminds.org.uk
- www.cardiffamilies.co.uk/cy/ (cyngor a chymorth rhianta)
- Cwestiynau am ddarpariaeth PYD sydd wedi newid dros y Pasg - Freeschoolmeals@cardiff.gov.uk
- Cymorth i deuluoedd bwyd/darpariaeth hanfodol 02920871071
- Gwasanaeth cwnsela wythnosol i ddisgyblion, gall rhieni eu cyfeirio 02920330709
- Gwasanaeth tecstio nyrs ysgol i ddisgyblion 11-19 oed 07520615718

Y Gymuned

Mae'r ysgol yn dal i chwarae rôl allweddol yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Ers dechrau gwyliau'r Pasg, trosglwyddwyd sbectolau diogelwch o'r Adran Wyddoniaeth i ysbytai'r Waun a Llandochau, mae Dr Henderson yn parhau i baratoi nwyddau PPE i weithwyr allweddol ar hyd a lled y wlad, mae Oliver o flwyddyn 7 yn codi arian i Ysbyty Plant Arch Noa drwy redeg 50k dros 10 diwrnod, mae Daniel o flwyddyn 7 yn codi arian i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro drwy seiclo, mae Jayden o flwyddyn 8 wedi codi arian i'r GIG a banciau bwyd lleol drwy eillio'i ben, ac rydym yn dal i gynnig darpariaeth gofal plant i weithwyr hanfodol a phlant bregus ar safle'r ysgol.

Llongyfarchiadau

Daeth y cyhoeddiad Dydd Llun bod Miss Gwennan Harries, un o aelodau brwdfrydig yr adran Addysg Gorfforol yng Nglantaf, wedi ennill gwobr Athro / Darlithiwr y Flwyddyn gan Hoci Cymru am ei chyfraniad i'r byd hoci. Nid yw hyn yn syndod i ni gan ein bod yn llwyr ymwybodol bod dwy athrawes orau Cymru yn aelodau o adran Addysg Gorfforol Ysgol Glantaf!

Er bod hwn yn gyfnod o ansicrwydd i bob un ohonom, ac nad oes sicrwydd pryd bydd yr ysgol yn ail-agor ei drysau, gallwn eich sicrhau y gwnawn bopeth o fewn ein gallu i ofalu na fydd unrhyw ddisgybl ar ei golled yn addysgol nac yn emosiynol. Am y tro, gofawch am eich teuluoedd a'ch gilydd gan roi blaenoriaeth i les corfforol a meddyliol. Siaradwch gyda'ch plant gan roi'r cyfle iddynt fynegi eu pryderon a'u hofnau. Mae'n gyfle amhrisiadwy i ddatblygu perthynas ddyfnach gyda nhw. Cadwch yn ddiogel a dilynwch ganllawiau'r llywodraeth.

Alun Davies a Staff Glantaf